
EISTEDDFOD
Wrecsam
2-9 Awst 2025

**602. Parti Alaw Werin hyd at 20 mewn nifer**

# Hafgan




Gan hynny gwnawn synnu 'mhob swydd,
Ystyriwn a gwelwn i'n gŵydd,
Ddoethineb dawn undeb Duw ne,
Yn trefnu pob peth yn ei le.

Mae'r holl greadigaeth fel drych,
Rhai deimlant a welant yn wych
Bob peth yn datguddio'n gytun
Ddaioni'r Creadwr ei hun.

Cynhyrfwn a gwelwn mai gwir,
Cawn feirw, cwyn arw, cyn hir;
Gwybyddwn, na ffaeliwn yn ffôl,
Mae'r bywyd tragwyddol yn ôl.